

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 8A (Carreg Brân) a
Chefnffordd yr A5 (The Lodge i
Gylchfan Ffordd Pentraeth,
Porthaethwy, Ynys Môn)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a
Cherddwyr Dros Dro) 2022

The A55 Trunk Road (Junction 8A
(Carreg Bran) & the A5 Trunk
Road (The Lodge to Pentraeth
Road Roundabout, Menai Bridge,
Anglesey) (Temporary Prohibition
of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2022

Gwnaed 26 Ebrill 2022
Yn dod i rym 3 Mai 2022

Made 26 April 2022
Coming into force 3 May 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A55 a'r A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A55 and A5 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited because of works proposed on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8A (Carreg Brân) a Chefnffordd yr A5 (The Lodge i Gylchfan Ffordd Pentraeth, Porthaethwy, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Mai 2022.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 8A (Carreg Bran) & the A5 Trunk Road (The Lodge to Pentraeth Road Roundabout, Menai Bridge, Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2022 and this Order comes into force on 3 May 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Interpretation

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 3 Mai 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffyrdd yr A55 a’r A5 Llundain i Gaerdybi.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

26 Ebrill 2022

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 and A5 London to Holyhead trunk roads;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 3 May 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

26 April 2022

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darnau o ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 8A (Carreg Brân), Ynys Môn.

Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o The Lodge, i'r dwyrain o Gyffordd 8A hyd at ei chyffordd â Chylchfan Ffordd Pentraeth, Porthaethwy, Ynys Môn.

SCHEDULE

The lengths of the A55 eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 8A (Carreg Bran), Anglesey.

The length of the A5 trunk road that extends from The Lodge, east of Junction 8A to its junction with Pentraeth Road Roundabout, Menai Bridge, Anglesey.

